# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T. H. Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Aled M.Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Jim Evans, J. P. Williams, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW**: | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid (eitemau 3 a 4)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Uwch Archwilydd Mewnol (EW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Eric Jones, R. Llewelyn Jones, G. W. Roberts OBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr. Patrick Green (RSM Tenon), Mr. James Quance (PwC) |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i'r sawl a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio a gwnaeth y cyflwyniadau priodol.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd a llofnodwyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mawrth a 20 Mai 2011.

Yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2011 –

- Yn unol â'r cais gan y Pwyllgor Archwilio am fanylion ynghylch costau cynnal y sioeau teithio Hawl i Holi ar ddiwedd y flwyddyn, dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor mai cyfanswm cost y sesiynau, yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael oedd £7,126.40 + TAW a gellir eitemeiddio'r gost fel a ganlyn:

    - Hysbysebu yn y wasg leol - £2,554.10 + TAW
    - Trefniadau sain a thaflunydd - £1,820 + TAW
    - Gwasanaeth hwylusydd - £1,607.60 (yn cynnwys TAW)
    - Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd - £918.20 + TAW
    - Llogi neuaddau - £229.50

- Gan gyfeirio at Adroddiad drafft CLlC ar yr Adolygiad Cymheiriaid o'r Gwasanaeth Cyllid, sef mater a gododd yn nhrafodaeth y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth, dywedodd yr Is-Gadeirydd ei fod ef o'r farn y dylai geiriad y penderfyniad dan eitem 3 fod yn fwy cadarn o ran adlewyrchu dymuniad y Pwyllgor, sef y dylai'r Cadeirydd ar Is-Gadeirydd gael gweld yr adroddiad drafft yn hytrach na'r hyn sydd wedi ei gofnodi mewn gwirionedd, h.y. gwneud ymholiadau ynghylch priodoldeb cael ei weld. Aeth yr Is-Gadeirydd ymlaen i nodi nad oedd y mater beth bynnag wedi ei ddatrys gan nad oedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi cael gweld yr adroddiad drafft.

Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid bod y fersiwn ddrafft o'r adroddiad, yr un modd ag unrhyw adroddiad drafft arall, wedi cael ei ryddhau i'r staff perthnasol i'w ddilysu'n ffeithiol a hyd oni fyd y broses honno wedi ei chwblhau, ni fyddai'n briodol rhyddhau adroddiad i gynulleidfa ehangach. Dyma yw'r sefyllfa gyda'r drafft o'r Adroddiad Adolygiad Cymheiriaid o'r Gwasanaeth Cyllid. Mae'r Gwasanaeth Cyllid yn awyddus i'r broses ddilysu gael ei chwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl a bod yr adroddiad yn cael ei glirio fel un sy'n ffeithiol gywir ac yn gytbwys a chafwyd trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda golwg ar gyflymu'r broses. Unwaith y bydd y broses hon wedi ei chwblhau, gellir rhyddhau'r adroddiad.

Roedd yr Is-Gadeirydd yn anfodlon bod yr adroddiad wedi bod ar ffurf ddrafft ers cymaint o amser a dywedodd eto ei fod o o'r farn mai dymuniad y Pwyllgor Archwilio oedd i'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd gael gweld yr adroddiad fel yr oedd yn sefyll yn ei ffurf ddrafft.

**3 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r modd y mae'n berthnasol i Bwyllgorau Archwilio. Cafodd y rhan o'r mesur a oedd yn berthnasol i Bwyllgorau Archwilio ei amgáu gyda'r adroddiad a dywedwyd wrth yr aelodau y deellir y daw'r ddeddfwriaeth i rym erbyn Mai 2012.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried y pwyntiau isod yn benodol a rhoi eu sylwadau arnynt:

- *Cylch Gorchwyl* - a ddylid gwneud mân newidiadau i'r cylch gorchwyl. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn rhedeg Pwyllgor Archwilio yn unol ag arfer da am nifer o flynyddoedd ac ar wahân i fân waith adolygu, ychydig iawn o newid sydd angen ei wneud. Mewn ymateb i gais am eglurhad ynghylch beth yr oedd y mân newidiadau hyn yn ei olygu mewn gwirionedd, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid mai mater o ddiweddaru'r cylch gorchwyl oedd y newidiadau yn bennaf er mwyn adlewyrchu newidiadau diweddar e.e. cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn lle Datganiad o Reolaeth Fewnol. Byddai'r cylch gorchwyl diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

  **Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i wneud mân newidiadau i'r cylch gorchwyl fel yr eglurwyd.**

  *Aelodaeth o blith Cynghorwyr* - a ddylid newid Cyfansoddiad y Cyngor i ganiatáu aelod o'r Pwyllgor Gwaith i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. Dywedwyd bod Cyfansoddiad yr awdurdod hwn ar hyn o bryd yn gwahardd aelodau'r Pwyllgor Gwaith rhag bod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Mesur yn caniatáu (ond nid yw'n ofynnol) i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar yr amod mai un aelod fydd yn gwasanaethu ac na fydd yr aelod yn cadeirio'r Pwyllgor hefyd. Argymhellwyd gadael y Cyfansoddiad fel y mae oherwydd bod y Pwyllgor Archwilio y mae'r Awdurdod yn ei redeg ar hyn o bryd yn cydymffurfio gydag arferion da.

  Roedd consensws ymysg aelodau'r Pwyllgor y dylid cadw pethau fel y maent ac y dylid gwarchod annibyniaeth y Pwyllgor Archwilio. **O'r herwydd, penderfynwyd argymell bod pethau'n aros fel y maent o safbwynt aelodaeth o blith Cynghorwyr ar y Pwyllgor Archwilio a gadael y Cyfansoddiad fel y mae.**

- *Aelodaeth Cyfetholedig* – Sawl aelod cyfetholedig y byddid yn dymuno eu cael ar y Pwyllgor Cynllunio, pa sgiliau sydd eu hangen a pha bryd i recriwtio?

  Dywedwyd bod darpariaeth newydd yn y Mesur sy'n golygu bod rhaid cael aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar Bwyllgorau Archwilio. Dylai fod o leiaf un aelod cyfetholedig ond ni ddylent gyfrif am fwy na thraean o'r aelodaeth a byddai gan yr aelodau hyn hawliau pleidleisio a gallent gadeirio'r pwyllgor. Disgwylir am ganllawiau gan LlCC a fydd efallai yn cynnwys canllawiau ar benodi aelodau cyfetholedig. Disgwylir i'r canllawiau hynny nodi'r angen i recriwtio unigolion a chanddynt sgiliau sy'n briodol i swyddogaeth y Pwyllgor. Yn ychwanegol at y wybodaeth ynghylch gweithgareddau craidd y Cyngor a'r fframwaith rheoleiddiol y mae'n gweithredu ynddo, mae canllawiau CIPFA yn cyfeirio at yr angen am sgiliau a phrofiad penodol ym meysydd llywodraethu da; rheoli risg; sicrwydd o reolaeth fewnol a materion cyfrifo. Mae'n bosibl y

byddai'n werthfawr recriwtio o ragor nag un maes proffesiynol. Mae'r Mesur yn caniatáu cyfethol un, dau, dri neu bedwar o aelodau cyfetholedig yn ychwanegol at y deg Cynghorydd sydd yn gwneud hi'n bosibl i recriwtio cydbwysedd o sgiliau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid yn amodol ar hyn a ddywed canllawiau LlCC, ei fod ef o'r farn bod angen i aelodaeth daro cydbwysedd rhwng parhad ac annibyniaeth ac y dylid caniatáu i aelodau cyfetholedig fod yn y swydd yn ddigon hir iddynt ddod yn gyfarwydd â systemau a phrosesau'r Cyngor ond dim mor hir fel eu bod yn orgyfarwydd ac o bosibl yn colli gwrthrychedd a sialens. Argymhellwyd y dylid recriwtio o leiaf ddau o aelodau cyfetholedig i gynnwys un gyda chefndir cyfrifo ac un gyda chefndir rheoli risg/archwilio/rheoleiddiol. Awgrymwyd cyfnod o bedair blynedd yn y swydd, ni fyddent yn gymwys i ailymgeisio, ond sicrhau bod yr aelodaeth gyfetholedig yn cychwyn ac yn gorffen ar adegau gwahanol. Byddai angen recriwtio mewn digon o amser cyn dyddiad cychwyn y Mesur a byddai'n werth gwneud hyn cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch nifer yr aelodau cyfetholedig y byddid yn dymuno eu cael ac a fyddai'n angenrheidiol i sicrhau parhad gan gynnwys recriwtio tri o aelodau cyfetholedig ac/neu broses benodi raddol lle byddai un neu ddau o aelodau cyfetholedig yn cael eu penodi mewn un flwyddyn ac aelod arall y flwyddyn wedyn. Cynigiodd y Cynghorydd Ieuan Williams y dylid recriwtio dau aelod cyfetholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio am dymor o bedair blynedd na fyddent yn gymwys i gael eu hailethol. Cafodd ei gynnig ei eilio gan y Cynghorydd E. G. Davies. Cytunodd y Cynghorydd J. P. Williams am y rheswm bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid wedi argymell dau o aelodau cyfetholedig i sicrhau'r cymysgedd o sgiliau a ddeisyfir sef cefndir cyfrifeg a rheoli risg/archwilio/rheoleiddio. Roedd yr Is-Gadeirydd o farn wahanol ac yn ffafrio cael un aelod cyfetholedig yn unig oherwydd dyna oedd y gofyniad dan y Mesur. Dywedodd er nad oed yn gwrthwynebu i aelodau cyfetholedig wasanaethu mewn capasiti ymgynghorol, roedd o o'r farn bod cael aelodau cyfetholedig a hawliau pleidleisio yn sylfaenol annemocrataidd ac nad oedd yn cydymffurfio gydag ethos Pwyllgor a etholwyd yn ddemocrataidd. Oherwydd, roedd yn anghytuno gyda'r cynnig y dylid recriwtio dau aelod cyfetholedig.

Gofynnwyd pwy fyddai'n gyfrifol am y broses recriwtio ac a oedd ots i ba un o'r pum prif gorff cyfrifo yr oedd darpar aelodau cyfetholedig yn aelod ohonynt gan gadw mewn cof yr angen i'r unigolyn fod yn ymwybodol o'r system gyhoeddus ond nid yn rhy gyfforddus â'r system honno. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid trwy ddweud na ddylid cyfyngu gormod ar y broses recriwtio ac y dylid cymryd i ystyriaeth brofiad yr unigolyn ynghyd â chymwysterau ffurfiol/proffesiynol. Yn absenoldeb unrhyw ganllawiau ar y mater ar hyn o bryd, credai ef y dylai'r Pwyllgor Archwilio ei hun fod yn gyfrifol am recriwtio aelodau cyfetholedig ac awgrymodd y dylid drafftio pecyn recriwtio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor a rhoddi sylw i ganllawiau LlCC pan gânt eu cyhoeddi. Wrth wneud yr awgrymiad hwn, dygodd sylw at y risg sy'n gysylltiedig â rhagdybio beth fydd yn y canllawiau oherwydd gallai'r Pwyllgor symud ymlaen mewn modd sydd ddim wedyn yn cael ei gefnogi gan y canllawiau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd canllawiau LlCC unwaith y cânt eu cyhoeddi, yn sylweddol wahanol i ganllawiau proffesiynol CIPFA y cyfeiriwyd atynt wrth ddrafftio'r adroddiad uchod. Ymhellach, byddai'n ddefnyddiol symud ymlaen i recriwtio mewn da bryd ar gyfer adeg gweithredu'r Mesur fel bod aelodau cyfetholedig yn gyfarwydd â'u rôl cyn iddynt gael hawliau pleidleisio pan ddaw'r Mesur i rym.

**Penderfynwyd argymell –**

- **Recriwtio dau o aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio i gynnwys un gyda chefndir cyfrifo ac un gyda chefndir rheoli risg/archwilio/rheoleiddiol. (Pleidleisiodd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Aled Morris Jones, yn erbyn y cynnig hwn).**
- **Bod yr aelodau cyfetholedig yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd ac ni fyddant yn gymwys wedyn i gael eu hailethol.**
- **Yn amodol ar yr hyn a ddywed canllawiau LlCC, y Pwyllgor Archwilio fydd yn gyfrifol am recriwtio aelodau cyfetholedig.**
- **Y bydd y broses recriwtio yn cychwyn cyn gynted ag sy'n bosibl ac y bydd pecyn recriwtio'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.**
- **Rhoddir sylw i ganllawiau drafft LlCC unwaith y cânt eu cyhoeddi.**

- *Cydnabyddiaeth i Aelodau Cyfetholedig* - dywedwyd bod modd yn awr talu lwfans i aelodau cyfetholedig. Mater i'r Cyngor llawn yw'r polisi ar y lwfansau i aelodau cyfetholedig hyd at yr

uchafswm a bennwyd gan y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, yr isafswm yw £1,200 y flwyddyn neu £2,230 ar gyfer y rheini sy'n cadeirio Pwyllgorau Safonau; nid yw'r Panel hyd yma wedi rhoi sylw i lwfansau aelodau cyfetholedig ar Bwyllgorau Archwilio. Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu lwfansau ar gyfer unrhyw aelodau cyfetholedig. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio fynegi barn ar y mater.

Roedd gwahaniaeth barn ynglŷn â'r mater hwn. Roedd yr Is-Gadeirydd o'r farn gadarn na ddylid talu lwfans i aelodau cyfetholedig oherwydd y ffaith bod y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad i beidio â thalu lwfansau o'r fath. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor Archwilio ofyn i'r Cyngor ailystyried y mater yng nghyd-destun y Pwyllgor hwn. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn arwain at ganfyddiad ymysg y cyhoedd bod y Cynghorwyr ar y naill law yn barod i dderbyn lwfansau ond eu bod ar y llaw arall yn gyndyn i gefnogi rhoi cydnabyddiaeth i aelodau cyfetholedig am eu gwasanaethau. Dywedodd yr Is-Gadeirydd bod rôl yr aelod etholedig yn fwy eang o lawer a bod Cynghorydd yn atebol yn ddemocrataidd ond bod diffiniad mwy cul i benodiad yr aelod cyfetholedig, h.y. mae'n seiliedig ar arbenigedd. Roedd y Cynghorydd E. G. Davies yn credu bod manteision i'r ddwy ddadl ac y gallai cydnabyddiaeth gynorthwyo i ddenu arbenigedd.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd argymell na fydd aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn cydnabyddiaeth ar hyn o bryd.**

## 4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rhoes y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol ddiweddariad ar lafar i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y sefyllfa mewn perthynas â chynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod y Datganiad Llywodraethu yn ffurfio rhan o'r Datganiad Cyfrifon a'i fod yn adlewyrchu nifer o agweddau sydd a wnelont â threfniadau llywodraethu'r awdurdod. Bwriedir y Datganiad Llywodraethu fel asesiad o weithrediad system lywodraethu'r awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ac o'r herwydd, mae'n adlewyrchol ei natur. Dylai fod yn asesiad gonest sy'n sôn am gryfderau a gwendidau'r system ac o'r herwydd, dylai gynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd. Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2009/10, cydnabuwyd bod yr awdurdod wedi cael Adroddiad Arolygu Llywodraethu Corfforaethol a oedd yn feirniadol ac y mabwysiadwyd cynllun adferiad o ganlyniad; roedd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Adfer. Mae'r dull hwn o adrodd yn gwyro oddi wrth fformat safonol y Datganiad Llywodraethu sy'n ymwneud â chyflwyno tystiolaeth yn erbyn chwe egwyddor gydnabyddedig mewn perthynas â llywodraethu da mewn awdurdodau lleol. Y mater i'w ystyried yw sut y dylid llunio'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2010/11 yn wyneb y ffaith nad oes modd dibynnu ar y Cynllun Adfer fel yr unig arwydd o gynnydd o ystyried bod lefel yr ymyrraeth yn yr awdurdod wedi dwysáu yn ystod y flwyddyn. Serch hynny, mae llawer o'r dystiolaeth y disgwylir i'r Datganiad Llywodraethu ei hymgorffori ar gael yn seiliedig ar y ffaith y gall y Cyngor arddangos elfennau o lywodraethu da. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid ei fod yn dymuno i aelodau fod yn ymwybodol o'r sefyllfa; byddid yn ymgynghori ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a fynegwyd a bydd adroddiad mwy sylweddol o lawer yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

Dywedodd nifer o'r aelodau y byddent wedi hoffi cael copi o'r Cynllun Adfer fel rhan o'r adroddiad i'r cyfarfod ar y mater hwn. Roeddynt yn teimlo y byddai'r cynllun wedi bod o ddefnydd i ddangos y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod oherwydd, er gwaethaf y ffaith bod lefel yr ymyrraeth wedi dwysau, roedd rhai aelodau o'r farn bod yr Awdurdod wedi, a'i fod yn parhau i wneud gwelliannau, a byddai tystiolaeth o hynny yn y Cynllun Adfer a gellid defnyddio hwnnw fel man cychwyn. Ymhellach, dywedwyd bod yr angen i wella'r broses o ran dod â'r Datganiad Llywodraethu gerbron y Pwyllgor Archwilio wedi ei gydnabod yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor pryd mynegwyd bwriad i gyflwyno datganiad drafft i'r cyfarfod hwn, sef cyfarfod mis Mai. O ran hynny, roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd Datganiad Ysgrifenedig ar gael. Nododd yr aelodau'r wybodaeth a gyflwynwyd ac roeddent yn barod i dderbyn y byddai adroddiad llawnach ar gael i'r cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf ar y ddealltwriaeth y byddai'r adroddiad hwnnw hefyd yn cynnwys copi o'r Cynllun Adfer.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa yn unol â'r adroddiad ynghyd â'r pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth arno.**

## 5. ARCHWILIO MEWNOL

### 5.1 Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2010/11

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol ar gyfer 2010/11. Roedd yr adroddiad yn sôn am y gwaith archwilio cynlluniedig a gwirioneddol a wnaed yn ystod y flwyddyn ac amrywiadau a oedd yn codi ynghyd â'r rhesymau am hynny (Tabl 2); gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ar ffurf yr archwiliadau gwirioneddol a gynhaliwyd yn erbyn y nifer a gynlluniwyd (Tabl 3.1); perfformiad Archwilio Mewnol yn erbyn y dangosyddion mewn perthynas â chostau a chanlyniadau (Tabl 4.3); y casgliad cyffredinol ar y meysydd a archwiliwyd a lefel y sicrwydd y mae hynny'n ei ddarparu ynghyd â meysydd lle canfuwyd gwendidau mewn rheolaeth.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio wrth yr aelodau, yn seiliedig ar yr holl waith a wnaed, y llwyddwyd i sicrhau barn sicrwydd gwyrdd ar gyfer adolygiadau systemau yn 2010/11 sy'n cyfateb i rywfaint o welliant ar y radd gyffredinol o 'digonol' yn 2009/10. Roedd y nifer o adolygiadau ysgolion gradd gwyrdd hefyd yn cyfateb i welliant ar y raddfa C gyffredinol yn 2009/10. Mae'r graddau mewn perthynas â barn archwilio gwyrdd ar gyfer systemau ac ysgolion yn golygu risg leiaf neu risg isel i'r awdurdod. Yn seiliedig ar sgôp y gwaith a wnaed, roedd y rheolwyr yn gweithio yn unol â'r argymhellion a wnaed ac roedd y systemau hynny'n parhau i weithredu yn unol â'r bwriad. Fodd bynnag, dywedodd y Rheolwr Archwilio ei fod yn ymwybodol o feysydd lle byddai gwendidau rheoli arwyddocaol yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r systemau hynny a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hynny oedd -

- *Parhad Busnes* - cafodd adolygiad o drefniadau Parhad Busnes y Cyngor farn Archwilio Coch yn 2009/10. Cafodd cynnydd gyda gweithredu argymhellion allweddol ei ddilyn i fyny yn 2010/11 pryd canfuwyd bod yr un farn gyffredinol yn parhau i fod yn briodol. Roedd prif ganfyddiadau'r adolygiadau yn ymwneud â diffyg cynlluniau ffurfiol ac ysgrifenedig a oedd wedi eu cymeradwyo mewn perthynas â pharhad busnes a chynlluniau adfer yn dilyn trychineb TGCh. Cafodd y cyfrifoldeb am Barhad Busnes ei drosglwyddo o Adnoddau Dynol i'r Adran Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol yn ystod y cyfnod ac roedd dogfen cychwyn prosiect bellach wedi cael ei pharatoi i gynhyrchu'r cynlluniau angenrheidiol.
- *Rheoli Risg* – roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran datblygu a sefydlu'n gadarn, system ffurfiol ar gyfer rheoli risg yn y Cyngor. Fodd bynnag, hyd yma, nid oedd cofrestr ffurfiol o risgiau corfforaethol wedi cael ei chynhyrchu. Cynhaliwyd cyrsiau a gweithdai rheoli risg ar gyfer swyddogion ac aelodau yn ystod y flwyddyn.
- *Llywodraethu* - roedd y Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiadau mewn perthynas â llywodraethu. Fodd bynnag, oherwydd nifer yr adroddiadau sicrwydd gan drydydd parti yn y maes hwn a nifer y cynlluniau gweithredu a oedd yn eu lle, gohiriwyd yr adolygiadau hyn tan 2011/12. Roedd y Bwrdd Adfer yn ei le am y rhan fwyaf o'r cyfnod ac roedd yn canolbwyntio ar faterion llywodraethu. O'r herwydd, roedd sicrwydd Archwilio Mewnol ynghylch trefniadau llywodraethu yn dibynnu ar ei adolygiadau Archwilio Mewnol a'r adroddiadau sicrwydd gan asiantaethau trydydd parti. At ei gilydd, roedd y Cyngor wedi gwneud llawer i wella ei drefniadau llywodraethu ac roedd llawer mwy o waith wrthi'n cael ei ddatblygu.

Ystyrir bod y materion uchod yn rhai pwysig i'r Cyngor a bod angen rhoi sylw iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn 2010/11, roedd y ddau ganlyniad ynghylch Parhad Busnes a Rheoli Risg wedi adlewyrchu'n andwyol ar farn y fframwaith rheoli mewnol a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn y drafodaeth ddilynol, codwyd nifer o bwyntiau ynghylch Rheoli Risg gan gynnwys y dystiolaeth gadarn sydd ar gael o gynnydd a wnaed i ddatblygu system Rheoli Risg. Cyfeiriwyd at bryderon y Pwyllgor fel y cawsant eu lleisio yn y cyfarfod diwethaf bod Rheoli Risg wedi cael blaenoriaeth is gan y Rheolwr-gyfarwyddwr ar y pryd a gofynnwyd, os nad oedd amser yn ystyriaeth, faint y byddai'n ei gymryd i sefydlu'n gadarn system o Reoli Risg. Yn ogystal, codwyd mater argaeledd adnoddau digonol a gofynnwyd faint o amser a gymer i'r Awdurdod fedru datgan yn hyderus bod ganddo system Rheoli Risg hollol weithredol yn ei lle.

Ymatebodd y swyddogion trwy ddweud bod polisi Rheoli Risg drafft wedi cael ei ddatblygu a bod angen ei ledaenu a hynny ar wahân i'r gweithdai a'r cyrsiau ymwybyddiaeth a gynhaliwyd. Bydd

Cofrestr Risg Corfforaethol unwaith y bydd wedi ei sefydlu yn bwydo i mewn i'r Cynllun Archwilio Mewnol gan wneud i ffwrdd â'r ddibyniaeth a'r risgiau hanesyddol. Yn ogystal, byddai Cofrestr Risg yn cynnwys nifer o'r materion a godwyd o'r cyfarfod hwn a chyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â materion adnoddau e.e. y byddai'n caniatáu iddynt gael ei rheoli mewn modd rhesymegol yn hytrach nag ar sail ad hoc. Byddai unrhyw ddylanwad y medr y Pwyllgor ei ddefnyddio i gyflymu'r broses hon yn ddefnyddiol.

Dygodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y Comisiynwyr yn awyddus iawn i hwyluso gwaith rheoli risgiau ac i weld parhad y broses a gychwynnwyd mewn partneriaeth gyda Zurich Municipal. Pwysleisiodd nad yw rheoli risg bellach yn bwnc sydd wedi ei ohirio ond yn un sy'n cael ei gefnogi'n weithredol. O ran bwrw ymlaen gyda threfniadau rheoli risg, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y gellid gwneud llawer o gynnydd mewn 6 mis trwy secondio unigolyn sy'n gweithio ar hyn o bryd yn Nhîm Pwrcasu a Prosiectau'r Gwasanaeth Cyllid. Mewn ymateb i gais am adroddiadau gwaith ar y mater hwn, esboniodd y gellid dod â Datganiad Sefyllfa mewn perthynas â Rheoli Risg y bwriadwyd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio fel y Pwyllgor a chanddo gyfrifoldeb ffurfiol am faterion rheoli risg.

Roedd yr Is-Gadeirydd o'r farn y dylai ef a Chadeirydd y Pwyllgor gael cyfarfod gyda Mr. Byron Davies fel y Comisiynydd sy'n gyfrifol am faterion cyllid ac archwilio i wyntyllu'r pwyntiau a godwyd yn arbennig mewn perthynas â materion adnoddau sy'n pontio nifer o feysydd a materion rheoli risg a'r angen dybryd i greu a gweithredu Cofrestr Risg, gyda golwg ar roi cymorth i'r Gwasanaeth Cyllid gyda'r materion y mae'n eu hwynebu. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sicrwydd i'r aelodau fod y drafodaeth hon eisoes wedi digwydd ar lefel swyddogion gyda'r Comisiynydd Mr. Byron Davies a bod y Comisiynydd wedi bwriadu dod i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio ond oherwydd busnes brys arall, nid oedd wedi medru gwneud hynny. Eiliwyd cynnig yr Is-Gadeirydd gan y Cynghorydd Jim Evans.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2010/11 a nodi ei gynnwys.**
- **Bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ceisio cael cyfarfod gyda'r Comisiynydd, Mr. Byron Davies i drafod materion gan gyfeirio'n benodol at faterion rheoli risg ac adnoddau.**

**5.2 Cynnydd gyda gwaith yr Adain Archwilio Mewnol**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Ebrill 2011 er gwybodaeth i'r aelodau. Esboniodd y Rheolwr Archwilio bod diwyg newydd yr adroddiad yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan aelodau mewn gweithdai lle nodwyd eu bod yn dymuno gweld adroddiad sy'n dweud beth yw'r sefyllfa mewn ffordd fwy cryno a diagramatig. Mae Tabl 1 felly yn dangos statws yr adolygiadau sydd ar waith ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn yn unig ynghyd â'r farn gyffredinol. Mae'r Tabl yn 3.2 yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau a nodwyd yng Nghynllun Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2011/12, ac adroddir ar gynnydd hefyd yn y maes hwn i'r cyfarfodydd perfformio chwarterol ar gyfer cyllid. Mae paragraff 4 yr adroddiad yn cyfeirio at waith archwilio arbennig gan gynnwys y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r ymchwiliad hirsefydlog ynghylch grant adnewyddu, sef mater a oedd eisoes wedi ei gyfeirio i'r Heddlu. Mae cynnydd y Cyngor o ran gweithredu argymhellion yn cael ei ddangos yn y tablau cynnydd yn Atodiadau A a B i'r adroddiad. Yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y tablau cynnydd a chan ddefnyddio'r fethodoleg yn Atodiad B, aseswyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y cyfnod o ran gweithredu ar holl argymhellion yr Adain Archwilio Mewnol (ac eithrio rhai nad ydynt eto wedi cyrraedd y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno) lle mae'r statws hunanasesu naill ai yn 'gweithredwyd' neu yn 'disodlwyd'. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, roedd 71% o'r holl argymhellion o'r fath yn y categori hwn, a 67% o'r argymhellion lefel uchel a chanolig. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau cynnydd yn canolbwyntio ar argymhellion yn y dosbarth uchel a chanolig fel y rheini sy'n peri'r risg fwyaf. Y dyhead yw gweld cyfradd weithredu o 88% ar gyfer yr argymhellion hyn yn hytrach na'r 67% gyfredol.

Yn y drafodaeth a ddilynwyd, cyfeiriwyd yn benodol at gyfradd gyflawniad o sero yn erbyn y targed o 9 o adolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer meysydd risg corfforaethol, a gofynnwyd i'r Rheolwr Archwilio ymhelaethu ac ystyried a ddylai'r Pwyllgor fod yn poeni am hyn. Esboniodd y Rheolwr Archwilio bod

y sefyllfa sero wedi digwydd oherwydd nad oedd yr adroddiad hwn ond yn cyfeirio at gyfnod o fis, felly nid yw'r gwaith hwn wedi cychwyn eto. Mae'r cyntaf o'r adolygiadau cynlluniedig hyn yn cynnwys system gorfforaethol i dracio argymhellion yn wyneb y ffaith nad oes ar hyn o bryd unrhyw ystorfa ganolog ar gyfer argymhellion a wnaed gan asiantaethau sicrwydd trydydd parti. Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn gwneud darn o waith i sefydlu sut mae adrannau gwasanaeth yn adrodd yn ôl ar gynlluniau gweithredu gyda golwg ar greu cofnod corfforaethol. Mae adolygiadau Rheoli Perfformiad a Chynlluniau Busnes hefyd wedi eu cynnwys yn y categori hwn. Awgrymodd y Cynghorydd Ieuan Williams y dylai'r adolygiad Rheoli Perfformiad a data mesur perfformiad gael ei wneud yn brydlon o gofio nad oedd y cytundebau canlyniadau wedi cael eu tracio'n briodol a olygodd bod yr Awdurdod heb dderbyn taliad llawn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod y Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr wedi comisiynu unigolyn i wneud gwaith goruchwylio ar faterion cytundeb canlyniadau ar gyfer 2010/11 ar ffurf gwirio adroddiadau sydd wedi eu cwblhau. Bydd hyn yn rhan o waith gwirio arall yn yr Adran Gyllid y bydd yr unigolyn hwn hefyd yn gyfrifol am ei wneud.

Gofynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams am eglurhad hefyd ynghylch y rhyngwyneb rhwng adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio. Cyfeiriodd at adroddiad SAC ynghylch y system gwynion yr oedd ef wedi cyfrannu at y gwaith maes yn ei chylch. Dywedodd y byddai'n hoffi gweld copi. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod yr adroddiad ar gwynion yn un y bu PwC yn rhan ohono hefyd a chyfeirir at yr adroddiad hwn, yn ogystal â'i statws cyfredol, yn adroddiad PwC dan eitem 7 ar y rhaglen dan y categori "gwaith arall". Yn hanesyddol, y protocol yw bod adroddiadau archwilwyr allanol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio; fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn y Mesur Llywodraeth Lleol wedi cymylu'r mater i ryw raddau. Yn ogystal, y duedd gan SAC yn ddiweddar yw adrodd yn ôl fel rhan o'r asesiad hanner blwyddyn sy'n codi cwestiwn ynghylch a ddylai'r Pwyllgor hwn fod yn derbyn atborth ar waith archwilio allanol a wnaed. Mae swyddogion wedi cymryd y safiad hwn ac wedi pwysleisio y dylid cyflwyno atborth ar ddarnau o waith a wnaed. Roedd yr aelodau yn cytuno gyda'r safbwynt hwn a byddent yn gwerthfawrogi cael gwybod am ganlyniad unrhyw waith archwilio allanol a wneir hyd yn oed pe bai hynny ond ar ffurf crynodeb gweithredol. Awgrymodd y Rheolwr Archwilio y gallai'r Adain Archwilio Mewnol, fel rhan o'r system tracio argymhellion, symleiddio'r broses o ran egluro'r llinellau adrodd ar gyfer adroddiadau archwilio allanol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gwaith gan yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 i 30 Ebrill 2011 a nodi ei gynnwys.**

## 6 DIWEDDARIAD – CYFRIFON 2010/11

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn amlinellu'r cynnydd ynghylch y trefniadau ar gyfer paratoi cyfrifon 2010/11 i'r Pwyllgor i'w hystyried. Roedd yr adroddiad yn sôn am y materion isod fel rhai a oedd yn berthnasol i'r gwaith o baratoi a chau'r cyfrifon –

- Yr heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, fel pob awdurdod lleol arall, yn y gwaith o baratoi'r cyfrifon oherwydd cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a'r her benodol i Ynys Môn o roi sylw i'r dasg o ailbrisio asedau sefydlog, sef gwaith sy'n digwydd eleni a phopeth y mae hynny'n ei olygu.
- Materion adnoddau o ran sicrhau bod swyddi cyfrifeg sy'n allweddol i'r broses o gau'r cyfrifon yn cael eu llenwi'n briodol ac yn ddigonol, er y cynhaliwyd ymarfer recriwtio yn ystod 2010 ac er gwneud rhai penodiadau, erys bwlch o ran y gallu i recriwtio cyfrifwyr gyda digon o brofiad o gyfrifeg yn y maes llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae swyddogion cymwys a phrofiadol yn cyflawni'r swyddogaethau cyfrifeg allweddol hyn ar sail dros dro.
- Perfformiad systemau a materion cysylltiedig.
- Cynnydd a risgiau. Mae rhan 5 yr adroddiad yn ymhelaethu ar y cynnydd a wnaed hyd yma ac yn sôn hefyd am y risgiau sy'n parhau o ran cwblhau'r cyfrifon yn amserol.
- Cynlluniau i'r dyfodol ar ffurf gwaith a wneir yn y flwyddyn yn unol ag argymhellion Archwilwyr Allanol i fwrw ymlaen i gyflwyno prif systemau ariannol newydd; gweithredu system gyfrifo ar gyfer asedau sefydlog; ymchwilio i a goresgyn rhwystrau o ran llenwi swyddi uwch sy'n anodd i'w llenwi ac adolygu adnoddau staffio a'r strwythurau ar gyfer cau'r cyfrifon i sicrhau bod y trefniadau'n gwbl gadarn.

Wrth drafod yr adroddiad, roedd aelodau'r Pwyllgor yn nodi bod adnoddau unwaith eto yn thema sy'n ailgodi. O ran adnewyddu systemau, gofynnwyd faint o amser y byddai system newydd ei hangen i sefydlu. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod gwaith datblygu ar y system gyfredol eisoes

wedi dod i ben, a bod angen cyfleuster newydd. Dywedodd ei bod yn hyderus y gellir cyflwyno system newydd sy'n cwrdd â'r gofynion o fewn yr amserlen ofynnol ar yr amod nad yw'r system yn rhy gymhleth. Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams bod rhaid i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o'r rhaglen gydweithio yng Ngogledd Cymru wrth ystyried cyflwyno systemau newydd a byddai'n rhaid ymarfer diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi gwneud buddsoddiad a fyddai'n sicrhau mantais tymor byr yn unig. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y costau posib ac a fyddai unrhyw fuddsoddiad yn arwain at arbedion, esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod y gwasanaeth yn bwriadu buddsoddi o gwmpas £250k yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Gyfrifydd Prosiect y Gwasanaeth. Fodd bynnag, o ran arbedion, mae'n anodd iawn profi arbedion o systemau a'r prif fwriad wrth wneud y buddsoddiad yw sicrhau system sy'n hwyluso gwaith - efallai na fyddai'r fath system o angenrheidrwydd yn arwain at arbedion. Cafwyd trafodaeth ymhellach ynghylch cynlluniau'r dyfodol fel y nodwyd nhw dan baragraff 7 yr adroddiad a gofynnwyd a oedd y rhain wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer ffordd ymarferol ymlaen. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) i ba gyfnod yr oedd pob cynllun unigol wedi cyrraedd. Gwnaed awgrym hefyd o ran adnoddau, sef y byddai'n amser da yn awr efallai i fynd allan i'r farchnad i geisio llenwi swydd wag Archwilydd Mewnol a hysbysebu'n allanol. Dywedodd y swyddogion bod opsiynau yn cael sylw ond ei fod yn sylw dilys.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**7 ARCHWILIO ALLANOL – PWC**

Cyflwynwyd adroddiad ar waith yr Archwilwyr Mewnol i'r Pwyllgor i'w ystyried. Pwrpas yr adroddiad oedd sicrhau rheolaeth a rhoi i'r Pwyllgor Archwilio ddiweddariad o gynnydd yr archwiliad yn erbyn y cerrig milltir allweddol a nodir yn Strategaeth Archwilio 2010/11 a gwaith perfformio arall y gofynnwyd amdano gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dywedodd Mr. James Quance, PWC wrth yr aelodau mai prif ffocws yr adroddiad, er ei fod yn cynrychioli'r sefyllfa gyffredinol fel y mae hi ar hyn o bryd, oedd rhoi gwybodaeth ynghylch cyfrifon 2009/10 a'r gwaith o baratoi cyfrifon 2010/11. Mewn perthynas â'r cyntaf, mae'r adroddiad yn nodi chwech o argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid), ac mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod cefnogaeth ac ymrwymiad Iawn i sicrhau fod swyddi cyllid allweddol sy'n wag yn cael eu llenwi gyda staff a chanddynt y cymwysterau priodol a hynny ar sail barhaol cyn gynted ag y bo modd ac, yn gysylltiedig â hyn, y dylai rhesymau am y diffyg llwyddiant o ran denu ymgeiswyr o safon gael eu sgriwtineiddio a dylid adolygu'r dull o hysbysebu swyddi. Argymhelliad allweddol arall yw blaenoriaethu cyllidebau gan y Cyngor fel dyletswydd statudol. O ran y gwaith paratoi ar gyfer cynhyrchu cyfrifon 2010/11, er bod y cynnydd disgwyliedig wedi ei wneud mewn perthynas â'r prif gyfrifon, mae pryderon ynghylch diffyg cynnydd gan y Cyngor o ran paratoi ar gyfer cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mewn perthynas â threfniadau cydgysylltu gyda Swyddfa Archwilio Cymru, mae PWC wedi cyfarfod gyda rheolwyr a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ymchwiliadau hirsefydlog y Cyngor i honiadau ynghylch y modd y gweinyddwyd grant cartrefi gweigion a grant gwella tref. Cyfeiriwyd y mater i'r Heddlu ac maent wedi cadarnhau yn ddiweddar na fyddant yn mynd ar drywydd y mater. Bydd PWC yn cynnal nifer o gyfweliadau yn yr wythnosau nesaf gyda golwg ar gynhyrchu adroddiad a dod â'r mater hwn i ben. Fodd bynnag, os bydd unrhyw wybodaeth newydd yn dod i'r fei o'r cyfweliadau, yna mae'n bosib y bydd y mater yn cael ei ailgyfeirio i'r Heddlu.

Roedd yr aelodau yn croesawu'r adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf a oedd ynddo. Yna, cafwyd trafodaeth hir ynghylch yr anawsterau y mae'r awdurdod yn eu cael o ran denu a recriwtio staff addas a'r hyn y gellid ei wneud o bosib i ddatrys y sefyllfa. Nodwyd bod costau ynghlwm â sicrhau gwasanaeth staff asiantaeth i wneud y gwaith. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) trwy ddweud bod yr anawsterau y mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi dod ar eu traws gyda recriwtio yn berthnasol yn bennaf i swyddi allweddol ac, yn arbennig, swyddi uchel gyfrifwyr ac archwilwyr. Ni chafwyd anawsterau o'r fath wrth benodi i swyddi prif-lif, e.e. penodwyd i swyddi'n ddiweddar yn yr Adeiniau Cyflogau a Budd-daliadau. Dywedodd bod lefel y tâl yn ffactor ynghyd â sefyllfa ddaearyddol yr Awdurdod a'r enw y mae wedi ei gael oherwydd sylw negyddol yn y wasg a'r cyfryngau. Mae'r casgliadau sy'n ymwneud â thâl yn seiliedig ar gymariaethau rhwng yr Awdurdod hwn ac awdurdodau cyfagos a sectorau eraill ac ar drafodaeth gydag asiantaeth recriwtio broffesiynol a ddywedodd nad yw'r Awdurdod hwn yn debygol o fedru denu ymgeiswyr am swyddi allweddol yn y Gwasanaeth Cyllid sydd gyda'r cyfuniad iawn o arbenigedd technegol a rheoli am y cyflog a gynigir. Er bod hon yn broblem gymhleth yn yr ystyr y byddai'n anodd tynnu'r swyddi yn y Gwasanaeth Cyllid

allan o aliniad hefo'r broses arfarnu swyddi, mae rhai opsiynau yn cael eu hystyried mewn ymgynghoriad gydag Ymgynghorydd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol gan gynnwys gwahanu cyfrifoldebau rheoli a thechnegol. Bu llawer o drafodaeth ymysg yr aelodau am y rhesymau posib am y diffyg llwyddiant yn recriwtio ymgeiswyr da yn sgil y dirwasgiad a'r ansicrwydd y mae hynny wedi ei greu yn arbennig mewn perthynas â'r sector cyhoeddus. Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried y mater hwn yn iawn ac ystyried talu cyfraddau'r farchnad. Awgrymodd Mr. Patrick Green, RSM Tenon mai'r ateb ar gyfer y tymor canol a hir, er na fyddai'n datrys y broblem ar unwaith, fyddai canolbwyntio ar ddenu graddedigion ifanc a rhoi iddynt yr hyfforddiant angenrheidiol fel bod modd iddynt ymgymryd â swydd broffesiynol. Dygodd y Cynghorydd Ieuan Williams sylw'r Pwyllgor at y ffaith fod yr Awdurdod, dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy, wedi dod â'r Cynllun Hyfforddi Graddedigion i ben a phwysleisiodd y dylid gwneud eithriad o'r Gwasanaeth Cyllid yn hyn o beth gan olygu y gallai'r cynllun barhau i fod yn weithredol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cyllid, fel bod modd cael graddedigion dan hyfforddiant yn y gwasanaeth cyn gynted ag y bo modd. Dywedodd y dylid gwneud argymhelliad i'r perwyl i'r Bwrdd Comisiynwyr. Cynigiodd yn ffurfiol y dylid dilyn y dull hwn o weithredu ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd J. P. Williams.

Gofynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams hefyd am eglurhad ar bryder yr Archwilwyr Allanol ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran paratoi ar gyfer cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gofynnodd pa mor debygol oedd hi, ym marn PWC, y gallai'r Awdurdod gwrdd â'r dyddiad cau statudol eleni ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon. Esboniodd James Quance, er bod cydymffurfio gyda safonau adrodd ariannol rhyngwladol newydd yn ddyletswydd ar bob Awdurdod, mae llawer ohonynt wedi cyflogi staff i redeg prosiect ynddo'i hun ar y pwnc hwn. Mae'r Awdurdod hwn ymysg y rhai isaf o ran pa mor barod ydyw ar gyfer y safonau adrodd hyn ac nid yw'r gwaith paratoi wedi datblygu i'r graddau y byddai'r Archwiliwr Allanol yn dymuno. Mae'r cynhyrchu'r cyfrifon ar ffurf Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol erbyn 30 Mehefin yn parhau i fod yn her ac mae risg efallai na fydd yr Awdurdod yn cwrdd â'r her honno. Mewn ymateb i alwadau i gymryd camau i fynd i'r afael â risg, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sicrwydd i'r aelodau bod y Gwasanaeth Cyllid wedi cael cefnogaeth lawn y Comisiynwyr yn yr wythnosau diwethaf a bod y Gwasanaeth ei hun yn gwneud y trefniadau gorau posib am y mis hyd at y dyddiad cau ar ddiwedd Mehefin a'i fod yn ymgynghori'n rheolaidd gyda PWC.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad diweddaraf gan PWC a nodi ei gynnwys.**
- **Argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr, er mwyn ceisio rhoi sylw i anawsterau recriwtio yn y Gwasanaeth Cyllid, nad yw'r Cynllun Hyfforddi Graddedigion yn cael ei ddwyn i ben ar gyfer y Gwasanaeth Cyllid a bod y Gwasanaeth yn chwilio am raddedigion y gellir eu hyfforddi cyn gynted ag y bo modd.**

**Y Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**